## MODIWL 5

## CYFLWYNIADAU CLOI YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU

1. Yn ei datganiad agoriadol ysgrifenedig ar gyfer Modiwl 5, nododd Llywodraeth Cymru'r brif dystiolaeth ynglŷn â chyrchu, caffael a dosbarthu cyflenwadau gofal iechyd yng Nghymru yn ystod y pandemig. Bydd y datganiad cloi hwn yn canolbwyntio ar rai pwyntiau penodol a godwyd yn y gwrandawiadau, gwersi a ddysgwyd ac, yn bwysig, argymhellion.

**Cyflenwad cenedlaethol a phrinder lleol**

2. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd i dystion o Lywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru oedd pam fu achosion o brinder cyfarpar diogelu personol mewn ardaloedd lleol er bod y dystiolaeth yn dangos yn glir na wnaeth stociau byth ddod i ben ar lefel genedlaethol yng Nghymru.[1] Wrth gwrs, nid yw'r ffaith na wnaeth cyflenwadau ddod i ben ar lefel genedlaethol yn cynnig unrhyw gysur i'r rhai yr oedd prinder lleol wedi effeithio arnynt. Clywodd yr Ymchwiliad ym Modiwl 3 am yr effaith wirioneddol a gafodd prinder cyflenwadau ar staff iechyd a gofal, cleifion a'u teuluoedd. Ni fwriedir i gyfeiriad Llywodraeth Cymru at y darlun cenedlaethol dynnu sylw oddi wrth y problemau hynny ond, yn hytrach, gynorthwyo'r Ymchwiliad i nodi'r hyn a achosodd y problemau ac, yn bwysig, fesurau i osgoi prinder lleol yn y dyfodol.

<u>Y sector iechyd</u>

3. Clywodd yr Ymchwiliad gan Alan Brace a fu, o 23 Mawrth 2020, yn arwain gwaith Llywodraeth Cymru i gyrchu a dosbarthu cyfarpar diogelu personol yng Nghymru. Dywedodd Mr Brace wrth yr Ymchwiliad ei fod yn ymwybodol bod anawsterau yn ystod camau cynnar iawn y pandemig mewn perthynas â dosbarthu cyflenwad y pandemig. Nododd y broblem a welodd, sef bod y broses o ddosbarthu'r cyflenwad yn gweithio'n wahanol i'r ffordd roedd y GIG yng Nghymru yn gweithredu fel arfer. System 'dynnu' oedd y broses arferol lle roedd byrddau iechyd yn gwneud cais am stoc yn ôl yr angen.

[1] Gweler er enghraifft: Adroddiad INQ000214235_4 Archwilio Cymru, paragraff 4 ac adroddiad annibynnol y fyddin INQ000299126_1, paragraff 3.

Fodd bynnag, yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y pandemig, mabwysiadwyd system 'wthio' lle roedd pecynnau safonol o stoc yn cael eu 'gwthio allan' i'r GIG, a oedd yn rhan o'r gwaith cynllunio brys ledled y DU er mwyn dosbarthu'r cyflenwad yn ganolog.[2] Un o'r gwersi a nododd Mr Brace o'r pandemig, ac y gall yr Ymchwiliad ei hystyried mewn perthynas ag argymhellion, oedd ei bod yn ddefnyddiol i'r broses ar gyfer cyflenwi cyfarpar diogelu personol mewn argyfwng weithio yn yr un ffordd â'r system gyflenwi arferol.

4. Dywedodd Mr Brace wrth yr Ymchwiliad, pan ymgymerodd â'i rôl, ei fod mewn cysylltiad ag arweinwyr cyfarpar diogelu personol y byrddau iechyd bob dydd, a'u bod wedi ei sicrhau drwy gydol y cyfarfodydd hynny eu bod yn cael stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol.[3] Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ei datganiad agoriadol ysgrifenedig, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad oedd dosbarthu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol i'r byrddau iechyd yn golygu o reidrwydd ei fod yn cyrraedd yr ysbyty cywir neu'r ward gywir bob amser. Un wers bwysig sy'n codi felly yw bod angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod prosesau rheoli stoc lleol cadarn ar waith ganddynt y gellir eu hehangu'n briodol yn ystod cyfnod pan fydd mwy o alw, er mwyn sicrhau y gall cyflenwadau a geir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gael eu dosbarthu'n effeithlon i'r ysbyty cywir a'r ward gywir.

<u>Y sector gofal</u>

5. O safbwynt darparu cyfarpar diogelu personol i'r sector gofal, gwrthododd Mr Andrew Slade yr awgrym bod anghenion cartrefi gofal o ran cyfarpar diogelu personol wedi cael eu hesgeuluso yn ystod camau cynnar y pandemig. Tynnodd sylw at rôl y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol yn ystod wythnosau cynnar iawn y pandemig (cyn i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gymryd cyfrifoldeb am gaffael a dosbarthu ar gyfer y sector gofal) a fu'n gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel caffaelwyr cyfarpar diogelu personol ar gyfer cartrefi gofal.[4]

6. Cyfeiriodd Mr Brace at un alwad, ddiwedd mis Ebrill 2020, pan gafodd wybod bod cyflenwad un cartref gofal o gyfarpar diogelu personol wedi dod i ben ac nad oedd dim ar gael yn yr awdurdod lleol i ailgyflenwi'r stoc. Dywedodd Mr Brace wrth yr Ymchwiliad ei fod wedi cysylltu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, anfonwyd fan i'r

---

[2] Brace, Diwrnod 6/183/6-15; 6/205/3-12.
[3] Brace, Diwrnod 6/203/23 – 6/204/16.
[4] Slade, Diwrnod 14/89/11 – 14/90/7.

storfa cyfarpar ar y cyd berthnasol ac, yn fuan wedyn, cadarnhawyd bod y storfa yn llawn stoc mewn gwirionedd, ac mai dim ond problem gyfathrebu neu ddosbarthu oedd rhwng yr awdurdod lleol, y storfa cyfarpar ar y cyd a'r cartref gofal.[5] Yn yr un modd, nododd Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, y cafodd y Bartneriaeth Cydwasanaethau anawsterau wrth geisio cael data rheolaidd a chywir ar stoc gan rai storfeydd cyfarpar ar y cyd. Pan ofynnwyd a oedd hyn yn golygu nad oedd gan rai awdurdodau lleol ddigon o gyfarpar diogelu personol am nad oedd gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau ddarlun clir o'u lefelau stoc, dywedodd wrth yr Ymchwiliad mai'r gwrthwyneb oedd yn wir: byddai awdurdodau lleol yn rhoi gwybod bod eu cynhyrchion yn mynd yn brin, ond gallai'r Bartneriaeth Cydwasanaethau gadarnhau'n gyflym fod stociau o'r fath wedi cael eu dosbarthu'n ddiweddar mewn gwirionedd.[6]

7. Yn amlwg, roedd anawsterau gyda phrosesau rheoli stoc lleol awdurdodau lleol. Yn hynny o beth, mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r siom a fynegwyd gan Bereaved Families for Justice Cymru yn ei ddatganiad llafar i gloi[7] na chlywyd tystiolaeth gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai tystiolaeth o'r fath wedi taflu goleuni pellach ar y problemau hynny o ystyried y rôl bwysig a chwaraewyd gan awdurdodau lleol.

8. Nododd Mr Brace a thystion eraill fanteision Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel swyddogaeth gaffael ganolog arbenigol y GIG â phersonél profiadol a phrosesau sefydledig. Llwyddodd i gyflawni ei gweithgareddau arferol ar raddfa fwy heb fod angen datblygu strwythurau newydd yn sydyn. Ar ddechrau'r pandemig, nid oedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru swyddogaeth gaffael ganolog o'r fath. Dangosodd tystiolaeth Mr Brace effaith ymarferol y diffyg hwnnw. Dywedodd wrth yr Ymchwiliad er ei bod yn heriol cael darlun clir o'r stociau a oedd yn cael eu dal a chyfraddau defnyddio mewn byrddau iechyd ar gamau cynnar y pandemig, roedd yna, serch hynny, lawer mwy o ddata, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r materion hynny o fewn y GIG oherwydd ei strwythurau caffael canolog. I'r gwrthwyneb, bu'n rhaid dechrau o'r dechrau i gynhyrchu'r strwythurau a'r data hynny yn y sector gofal, a hynny'n gyflym.[8] Mae'n anochel bod y ffaith honno yn ffactor sylweddol yn y problemau cyflenwi lleol a wynebwyd gan y sector gofal yn ystod misoedd cynnar y pandemig. Mae'n bosibl bod natur dameidiog perchnogaeth darparwyr gofal yng Nghymru wedi gwaethygu'r sefyllfa ymhellach gan fod cyfran llawer uwch o ddarparwyr gofal bach sy'n gweithredu yn lleol

[5] Brace, Diwrnod 6/201/4 – 6/202/4.
[6] Irvine, Diwrnod 14/152/18 - 14/154/21.
[7] Diwrnod 16/73/12-16.
[8] Brace, Diwrnod 6/188/15-22.

yng Nghymru o gymharu â'r system yn Lloegr, er enghraifft, sydd â chyfran llawer uwch o ddarparwyr preifat mawr.

9. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yn ei datganiad agoriadol ysgrifenedig ar gyfer Modiwl 5 y gellid bod wedi symud i system gaffael ganolog dan arweiniad y GIG ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn gynharach ym mis Mawrth 2020. Mae'n bosibl y byddai hyn wedi sicrhau bod mwy o gyflenwadau ar gael ar gyfer y sector yn gyflymach yn nyddiau cynnar iawn y pandemig. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth y cyfeiriwyd ati uchod yn dangos bod problemau gyda phrosesau rheoli stoc awdurdodau lleol, ynghyd â natur dameidiog systemau caffael a dosbarthu llywodraeth leol yng Nghymru, wedi gwneud yr anawsterau dosbarthu a wynebwyd gan y sector gofal ar ddechrau'r pandemig yn waeth.

10. Mae Llywodraeth Cymru felly'n gofyn i'r Ymchwiliad argymell bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried gweithredu ar ran y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn datblygu dull mwy cydweithredol o reoli'r broses gaffael a'r gwaith o gasglu, rhannu a defnyddio data, gyda'r nod o ddarparu strwythur mwy cadarn, ymatebol a hyblyg ar adegau pan fydd y galw'n cynyddu'n gyflym iawn. Yn ein datganiad llafar i gloi, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni hyn.

**Y cyflenwad ar gyfer pandemig ffliw**

11. Holwyd tystion Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am ddigonolrwydd y cyflenwad ar gyfer pandemig ffliw, yn enwedig mewn perthynas â stociau o fasgiau FFP3 yr oedd dogfennau i weld yn awgrymu bod dyddiad defnyddio pob un ohonynt wedi mynd heibio ar ddechrau'r pandemig. Dywedodd Mr Irvine wrth yr Ymchwiliad fod yr eitemau hynny wedi cael eu hailbrofi ar lefel y DU ar dri achlysur ac y cadarnhawyd eu bod yn addas i'w defnyddio, ond nad oedd yn bosibl ail-labelu'r dyddiadau dod i ben ar yr achlysur olaf gan y byddai hon wedi bod yn broses lafurddwys iawn i'w chwblhau ym mis Mawrth 2020. Cadarnhaodd Mr Irvine hefyd na wnaeth y broses ailbrofi hon arwain at oedi o ran dosbarthu stoc i wasanaethau rheng flaen.

12. Yn nhystiolaeth lafar Mr Irvine i'r Ymchwiliad,[9] nododd mai Llywodraeth Cymru oedd wedi caffael eitemau yng nghyflenwad y Rhaglen Parodrwydd Pandemig Ffliw ('**PIPP**'),

[9] Irvine, Diwrnod 14/107/4-8; 14/109/24 - 14/110/4

ac mai Llywodraeth Cymru wnaeth bennu ystod a nifer y cynhyrchion a ddaliwyd. Fel y nodir yn natganiad corfforaethol Llywodraeth Cymru,[10] o dan delerau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y llywodraethau datganoledig a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Llywodraeth y DU fu'n gweithredu fel y prif brynwr mewn perthynas â'r cyflenwad PIPP ac ymgymerodd ag ymarferion caffael ar ran y pedair gwlad. Roedd yr eitemau a ddaliwyd yn y cyflenwad yn unol â'r hyn a gynghorwyd gan grwpiau arbenigol, megis Grŵp Cynghori ar Fygythiadau Feirysau Anadlol Newydd a Datblygol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac ymgymerodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru â'r gwaith o reoli a storio'r stoc o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Llywodraeth Cymru.

13. Wedi dweud hynny, fel y derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol, roedd rhai eitemau yn y cyflenwad yn annigonol a chafodd y stociau eu disbyddu'n llawer cyflymach na'r disgwyl. Un wers allweddol a nodwyd yn natganiad agoriadol Llywodraeth Cymru i'r modiwl hwn oedd yr angen i wneuthurwyr penderfyniadau yn ystod unrhyw bandemig yn y dyfodol fod yn ystyriol o ba mor gyflym y gall cyflenwadau allweddol gael eu disbyddu.

**Caffael cynhwysol**

14. Gofynnwyd cwestiynau i dystion o'r pedair gwlad am bwysigrwydd darparu cyfarpar diogelu personol a chyfarpar arall sy'n ffitio'n iawn i bawb sy'n eu defnyddio, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal Du ac Ethnig Leiafrifol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hon yn wers y mae'n rhaid ei dysgu o'r pandemig: mae'n rhaid i gyfarpar diogelu personol addas a chyflenwadau perthnasol eraill fod ar gael ar gyfer yr amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, a hynny o ran paratoi cyflenwadau a phrosesau caffael parhaus.

15. Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ym mis Mai 2023 a sefydlodd fframwaith i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, gwella gwasanaethau cyhoeddus, a gwella llesiant cyffredinol pobl Cymru. Mae'n cyflawni'r nodau hyn drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yng Nghymru, ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi

[10] Datganiad tyst Andrew Slade, INQ000506956_38-40, paragraffau 155 – 163.

strategaeth gaffael a gosod amcanion sy'n gysylltiedig â nodau llesiant yn eu prosesau caffael.

16. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu gweithgor i sicrhau bod y broses o roi'r polisi cronni cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol ar waith yn adlewyrchu pwysigrwydd darparu cyfarpar diogelu personol sy'n ffitio'n iawn i bawb sy'n ei ddefnyddio, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal Du ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r gweithgor wedi comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal rhaglen o brofion ffitio er mwyn pennu pa gynhyrchion sydd fwyaf priodol i'w cronni, y disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn mis Gorffennaf 2025.

**Natur fregus llinellau cyflenwi rhyngwladol**

17. Mae'n hollbwysig bod pedair llywodraeth y DU yn cydnabod pa mor fregus yw'r llinellau cyflenwi rhyngwladol yn ystod pandemig byd-eang neu ddigwyddiad tebyg. Dylai profiad COVID-19, a'r dystiolaeth a glywyd ym Modiwl 5, rybuddio llywodraethau yn y dyfodol am beryglon dibynnu'n ormodol ar farchnadoedd confensiynol a chyflenwyr o dramor yn ystod argyfwng. Gall fod mwy o werth mewn cael cadwyni cyflenwi domestig cadarn, sy'n llai tebygol o chwalu yn ystod pandemig byd-eang pan fydd galw mawr iawn am gyflenwadau rhyngwladol. Dylid ystyried cymysgedd o weithgynhyrchu lleol gyda chyflenwadau rhyngwladol felly. Mae dwy elfen i brosesau gweithgynhyrchu lleol: yr elfen gyntaf yw'r gallu i ddechrau cynhyrchu yn gyflym pan fo angen am gyfnod y digwyddiad brys. Byddai'r gallu hwnnw yn cael ei lywio gan brofiad y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol o'r pandemig. Mae'r ail elfen yn gofyn am fuddsoddiad tymor hwy mewn cadwyni cyflenwi domestig er mwyn sicrhau bod rhyw fath o sylfaen sefydledig o gyflenwad lleol pan fydd argyfwng yn dechrau. Fel y nododd Mr Slade, mae'n annhebygol iawn mai gweithgynhyrchwyr cyfarpar diogelu personol yn y DU fydd y rhataf yn y byd byth. [11] Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cryn gost yn gysylltiedig â buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi domestig, ac mae risg sylweddol na fydd angen yr holl gyflenwadau hyn. Am y rhesymau hynny, byddai angen i lywodraethau, a'r cyhoedd, gefnogi buddsoddiad mewn gormodedd cadwyni cyflenwi ledled y DU.

**Dull datganoledig o gaffael**

[11] Slade, Diwrnod 14/68/1-8.

18. Un o'r gwersi pwysig sy'n deillio o'r dystiolaeth yw budd sylweddol cael dull datganoledig o gaffael cyfarpar diogelu personol yng Nghymru. Fel y gŵyr yr Ymchwiliad, ar ddechrau'r pandemig y disgwyliad cyffredinol oedd y byddai cyfarpar diogelu personol yn cael ei gaffael ar sail y DU gyfan. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn gyflym na allai trefniadau'r DU ddarparu'r hyn yr oedd ei angen ac felly bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn y pen draw, ymateb ar fyr rybudd drwy gymryd cyfrifoldeb am gaffael yng Nghymru.

19. Roedd system gaffael ganolog gref ar waith yn y GIG yng Nghymru cyn y pandemig. Mewn tystiolaeth lafar a datganiadau ysgrifenedig, amlygodd swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru y gydberthynas waith agos ac effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheolaidd. Ategwyd hyn gan ddatganiad llafar Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gloi, lle disgrifiodd y gydberthynas â Llywodraeth Cymru fel elfen bwysig o'i gallu i ymateb i'r pandemig, gan gyfeirio at amseroldeb ymatebion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â cheisiadau am adnoddau, cymeradwyaeth ar gyfer contractau a rhannu gwybodaeth.[12] Soniodd Mr Brace am fanteision 'trefniadau llywodraethu gwlad fach' yng Nghymru: y gallu i ddwyn y bobl berthnasol ynghyd yn gyflym er mwyn cael cymeradwyaeth gan Weinidogion a rhoi camau gweithredu ar waith yn gyflym.[13] Roedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn: yn ei datganiad llafar i gloi, dywedodd fod hyn yn rhywbeth y gwnaeth Cymru elwa arno yn ystod y pandemig.[14]

20. Roedd pob cynnig i gyflenwi cyfarpar diogelu personol neu gyfarpar a chyflenwadau gofal iechyd allweddol eraill yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r un prosesau tryloyw a thrwyadl, ni waeth o ble y daethant. Roedd caffael cyfarpar diogelu personol yng Nghymru yn gosteffeithiol: gwariwyd £385 miliwn yn 2020-2022 o gymharu â'r £1.022 biliwn a gafwyd mewn cyllid canlyniadol. Arweiniodd proses gaffael Cymru at ychydig iawn o wastraff o ystyried y ffigurau yn gymesur, gan mai dim ond gwerth £12 miliwn o gyfarpar diogelu personol (neu 3% o gyfanswm y gwariant ar gyfarpar diogelu personol) a ddilëwyd. O'r £12 miliwn hwnnw, roedd y mwyafrif o ganlyniad i addasiad cyfrifyddu oherwydd y gostyngiad yng ngwerth cyfarpar diogelu personol o frig y

[12] Diwrnod 16/106/6-15.
[13] Brace, Diwrnod 6/194/2-25.
[14] Diwrnod 16/112/2-12.

pandemig, gyda llai na £2 filiwn (neu 0.4% o gyfanswm y gwariant ar gyfarpar diogelu personol) yn cynrychioli stoc gormodol a oedd wedi dod i ben.

21. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau, yn amodol ar ganlyniad strategaeth tymor hwy Llywodraeth y DU ar gyfer cyfarpar diogelu personol ac unrhyw argymhellion o'r Ymchwiliad, y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i ymgymryd â'r gwaith o gaffael, rheoli stoc a dosbarthu cyfarpar diogelu personol yng Nghymru i gyrff y GIG, yn hytrach na dychwelyd i'r drefn cyn COVID-19 o gaffael ledled y DU.

**Cyd-gymorth rhwng y pedair gwlad**

22. Er i'r trefniadau caffael a arweiniwyd gan y DU fethu ar gamau cynnar y pandemig, cafwyd cydweithio llwyddiannus rhwng y pedair gwlad ar ffurf cyd-gymorth. Mae Egwyddorion Stociau'r Pandemig ar gyfer Brigiad y Coronafeirws y cytunwyd arnynt ar 11 Chwefror 2020,[15] sy'n nodi'r broses a'r egwyddorion ar gyfer gwneud cais am gymorth rhwng y gwledydd a'i ddarparu, yn cynnig templed cryf ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Mae profiad Cymru o gyd-gymorth yn arbennig o addysgiadol: hyd yn oed fel 'allforiwr net', hynny yw bod Cymru wedi darparu mwy o gyflenwadau i wledydd eraill y DU na'r hyn a dderbyniodd, cadarnhaodd Mr Slade fod trefniadau cyd-gymorth wedi chwarae rôl gadarnhaol yn ymateb Cymru ac y dylai wneud hynny eto mewn unrhyw bandemig yn y dyfodol.[16]

**Y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol**

23. Yn ei ddatganiad tyst cyntaf, nododd Mr Irvine na chafodd gwaith y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol effaith amlwg ar argaeledd cyfarpar diogelu personol yng Nghymru.[17] Gwnaeth Mr Irvine gywiro hyn yn onest yn ei ail ddatganiad tyst ac yn ei dystiolaeth lafar, lle cadarnhaodd y gwnaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ddyfarnu nifer o gontractau i gwmnïau lleol a aeth ati i addasu eu prosesau gweithgynhyrchu er mwyn cynhyrchu feisorau wyneb gyda chymorth y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol. Esboniodd Mr Irvine hefyd fod ei ddatganiad yn gyfyngedig i gyfarpar diogelu personol, a nododd fod hylif diheintio dwylo yn enghraifft o gynnyrch arall a gynhyrchwyd yn lleol gyda chymorth y Tîm Peirianneg Gofynion

[15] INQ000477023.
[16] Slade, 14/74/19 – 14/76/2.
[17] INQ000536425_31, paragraff 127.

Cyfarpar Hanfodol.[18] Roedd Mr Slade yn derbyn y dylid bod wedi gwneud mwy yn ffurfiol i fesur effeithiolrwydd yr ymdrechion i ysgogi prosesau cynhyrchu cyfarpar diogelu personol domestig yn ystod y pandemig.[19]

24. Gofynnwyd cwestiynau, a hynny'n gwbl gywir, i Richard Davis, sef uwch-swyddog Llywodraeth Cymru yn y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol, am y penderfyniad i gaffael 10,000 o gydrannau ar gyfer peiriannau pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu ('**CPAP**') ar gamau cynnar y pandemig. Dim ond 2,000 oedd eu hangen yn y diwedd a arweiniodd at ddileu gwerth oddeutu £560,000 o gydrannau nas defnyddiwyd. Gan dderbyn bod hyn yn enghraifft o orwariant anffodus o edrych yn ôl, dywedodd Mr Davis yn blwmp ac yn blaen yn ei dystiolaeth, pe bai'n gwybod yr hyn yr oedd yn ei wybod ar y pryd, y byddai'n gwneud yr un penderfyniad yn seiliedig ar risg eto. Tynnodd sylw at yr amgylchiadau eithriadol ar y pryd, nifer cynyddol y marwolaethau o ganlyniad i COVID-19, cyngor gan uwch-glinigwyr yn cadarnhau mai peiriannau CPAP oedd y peiriannau anadlu o ddewis, a thrafodaethau yn y DU am y posibilrwydd y byddai angen hyd at 30,000 o beiriannau o'r fath.[20]

**Casgliad**

25. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd yr Ymchwiliad i ystyried gwneud yr argymhellion canlynol:

    a. Wrth gynllunio trefniadau caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer argyfwng yn y dyfodol, dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ystyried cymysgedd o weithgynhyrchu lleol a chyflenwadau rhyngwladol. Mae gweithgynhyrchu lleol yn cynnwys y gallu i ddechrau cynhyrchu yn gyflym pan fo angen am gyfnod y digwyddiad brys, a buddsoddiad tymor hwy mewn cadwyni cyflenwi domestig er mwyn sicrhau bod rhyw fath o sylfaen sefydledig o gyflenwad lleol pan fydd argyfwng yn dechrau.

    b. Dylai pedair gwlad y DU gytuno ar fesurau i hwyluso cyd-gymorth mewn argyfyngau yn y dyfodol, gan adeiladu ar y profiad o'r pandemig ac Egwyddorion Stociau'r Pandemig ar gyfer Brigiad y Coronafeirws.

    c. Dylai cyrff y GIG yng Nghymru sicrhau bod ganddynt brosesau rheoli stoc lleol cadarn ar waith y gellir eu hehangu'n briodol yn ystod cyfnod pan fydd mwy o alw, er mwyn sicrhau y gall cyflenwadau a geir gan Bartneriaeth

[18] INQ000575089_19-21; Irvine, Diwrnod 14/106/7-16; 14/126/19 – 14/127/14.
[19] Slade, Diwrnod 14/76/11 – 14/77/8.
[20] Davis, Diwrnod 14/173/7 – 14/175/24.

Cydwasanaethau GIG Cymru gael eu dosbarthu'n effeithlon i'r ysbyty cywir a'r ward gywir.

d. Dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ystyried gweithredu ar ran y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn datblygu dull mwy cydweithredol o reoli'r broses gaffael a'r gwaith o gasglu, rhannu a defnyddio data, gyda'r nod o ddarparu strwythur mwy cadarn, ymatebol a hyblyg pan fydd y galw'n cynyddu'n gyflym iawn.

26. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at y materion canlynol sy'n berthnasol yn gyffredinol i ystyriaeth yr Ymchwiliad o ganfyddiadau ac argymhellion:

a. Gellir disbyddu cyflenwadau pwysig yn gyflym iawn yn ystod pandemig, sy'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer cynllunio camau i gronni cyflenwadau a gwneud penderfyniadau yn ystod camau cynnar argyfwng.

b. Mae'n ddefnyddiol i'r broses cyflenwi cyfarpar diogelu personol mewn argyfwng weithio yn yr un ffordd â'r system gyflenwi arferol.

c. Mae'n rhaid i gyfarpar diogelu personol addas a chyflenwadau perthnasol eraill fod ar gael ar gyfer yr amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, a hynny o ran paratoi cyflenwadau a phrosesau caffael parhaus.

d. Roedd gan y dull datganoledig o gaffael yng Nghymru, gan ddibynnu ar swyddogaeth prynu a chaffael ganolog effeithiol a oedd wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn cyn y pandemig, fanteision sylweddol iawn.

**Dyddiedig Mai 2025**